Dydd Gwener 18 Hydref 2019

# Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

| | |
|---|---|
| **Presennol:** | Cynghorydd Ellen Ap Gwyn – Arweinydd: Cyngor Sir Ceredigion<br>Cynghorydd Rosemarie Harris – Arweinydd: Cyngor Sir Powys |
| | Cynghorydd Myfanwy Alexander – Aelod Portffolio'r Cabinet: Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Iaith Gymraeg (Cyngor Sir Powys)<br>Cynghorydd James Evans – Aelod Portffolio'r Cabinet: Datblygu Economaidd, Tai a Gwasanaethau Rheoleiddio (Cyngor Sir Powys)<br>Cynghorydd Dafydd Edwards – Aelod Portffolio'r Cabinet: Priffyrdd a'r Amgylchedd, yn cynnwys Tai (Ceredigion) |
| | Ann Elias – Cyngor Sir Ceredigion<br>Ann Watkin – Llywodraeth Cymru<br>Arwyn Davies – Cyngor Sir Ceredigion<br>Arwyn Watkins OBE – Hyfforddiant Cambrian<br>Caroline Turner – Prif Weithredwr: Cyngor Sir Powys<br>Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru<br>Eifion Evans – Prif Weithredwr: Cyngor Sir Ceredigion<br>Gareth Jones – Cyngor Sir Powys: Arweinydd Proffesiynol: Adfywio<br>Helen Jones – Llywodraeth Cymru<br>Helen Minnice-Smith, Pennaeth Datblygu Gwledig a'r Economi, Llywodraeth Cymru<br>Jane Davidson – Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant<br>Jenni Tomos – Llywodraeth Cymru<br>Gemma Christian – Llywodraeth Cymru<br>Mark Dacey – Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot<br>Matt Morden, Coleg Sir Gar a Choleg Ceredigion<br>Nia Williams – Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru<br>Nicci Hunter – Llywodraeth Cymru<br>John Jones – Llywodraeth Cymru<br>Nigel Brinn – Cyfarwyddwr: Cyngor Sir Powys<br>Nina Davies – Cyngor Sir Powys<br>Peter Davies – Undeb Amaethwyr Cymru<br>Peter James – Llywodraeth Cymru<br>Rhodri Griffiths – Llywodraeth Cymru<br>Rhodri Llwyd Morgan – Prifysgol Aberystwyth<br>Rhys Horan, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru<br>Rowland Rees-Evans – Twristiaeth Canolbarth Cymru<br>Russell Hughes-Pickering (Ceredigion)<br>Steve Hughson –Prif Weithredwr: Sioe Frenhinol Cymru<br>Vanessa Naughton – Llywodraeth Cymru |
| **Yn mynychu:** | Alison Gregory, Jon Booth a Chris Odling-Smee – Y Grŵp Morol – ar gyfer eitem 3 |
| **Ymddiheuriadau:** | Alan Davies – Rheolwr Gyfarwyddwr, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Carwyn Jones-Evans – Cyngor Sir Ceredigion<br>Claire Miles – Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru<br>Emma Wilde – Siambr Fasnach Canolbarth Cymru<br>Emyr Williams – Parc Cenedlaethol Eryri<br>Jane Lewis – Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru<br>Julian Atkins – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>Peter Skitt – Cyfarwyddwr Rhaglen Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru |

Cofnodion cyfarfod Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, a gynhaliwyd ddydd Gwener 18 Hydref 2019 yn Siambr y Cyngor, Cyngor Sir Ceredigion, Aberaeron

| | | Action |
|---|---|---|
| **1.** | **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF – 12 GORFFENNAF 2019**<br><br>Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Gwener 12 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir yn amodol ar ddiwygio'r cyfeiriad yn eitem 7b (Brexit – Ein Tir) i ddarllen: ' Bu cydweithio agos rhwng CLILC ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru '.<br><br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion ar gyfer trafodaeth/diweddariad na fyddai'n cael eu trafod fel rhan o'r agenda. | |
| **2.** | **BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU**<br><br>Yn ystod y drafodaeth a'r diweddariad, cyfeiriwyd yn benodol at:<br><br>a. **Cefnogaeth y Llywodraeth -** mae Llywodraeth y DG wedi ailddatgan ei chefnogaeth i Fargen Twf Canolbarth Cymru yn ddiweddar, ac wedi cyhoeddi y bydd yn ymrwymo £55 miliwn dros 15 mlynedd i gefnogi gweithgarwch twf. Bydd gwaith lobïo Llywodraeth Cymru'n parhau i geisio cymorth ar gyfer model Bargen Twf pedwar rhanbarth yn hytrach na model tri rhanbarth.<br>b. **Is-Ysgrifennydd Gwladol yn Swyddfa Cymru** – Bydd Kevin Foster AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol yn Swyddfa Cymru, yn cwrdd ag Arweinyddion Cynghorau Sur Ceredigion a Powys i drafod Bargen Twf Canolbarth Cymru ar 22 Tachwedd<br>c. **Llywodraethu** – Mae Ceredigion a Phowys wedi sefydlu cyd-bwyllgor yn ffurfiol i sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith erbyn hyn. Golyga hyn y bydd rôl y bartneriaeth yn esblygu<br>d. **Cais Strategol –** mae gofyn cyflwyno dogfen gynnig ar gyfer bargen Canolbarth Cymru i Lywodraethau'r DG a Chymru erbyn Mawrth 2020<br>e. **Grŵp Strategaeth Economaidd** – heddiw oedd y dyddiad cau ar gyfer enwebu ar gyfer swydd Cadeirydd y Grwp Strategaeth Economaidd. Bydd yn bwysig penodi i swydd y Cadeirydd<br>f. **Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol (Rhanbarth Canolbarth Cymru)** – mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi sefydlu Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Canolbarth Cymru mewn egwyddor. Byddai ystyriaeth bellach am faterion ymarferol. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gadarnhau ei safbwynt yn ysgrifenedig cyn hir<br>g. **Strategaeth Gyfathrebu** – cytunodd y rhai a oedd yn bresennol ar y strategaeth ddrafft a ddosbarthwyd gyda phapurau'r cyfarfod heddiw. Bydd y strategaeth yn parhau'n hyblyg ac yn datblygu dros amser. Bydd yn bwysig ar gyfer cyfathrebu a rheoli negeseuon am raglenni gwaith. Derbyniodd y rhai oedd yn bresennol newidiadau yn ymwneud â'r isod:<br><br>i. **Neges Allweddol 2.3 – Uchelgais** – dylid cyfeirio at bwyntiau gwerthu unigryw ar gyfer y rhanbarth yn y rhan hon o'r ddogfen h.y. ynni carbon isel a sut mae'r rhanbarth mewn sefyllfa dda iawn i gefnogi gweithgarwch o fewn y thema berthnasol<br>ii. **Matrics Dylanwad a Diddordeb 3.2** – mae meysydd lle awgrymwyd adolygu'r effeithiau a maint diddordeb h.y. cydnabod pwysigrwydd prifysgolion, colegau a darparwyr sgiliau eraill fel partneriaid hanfodol yn y Fargen. Nodwyd, fodd bynnag, y gellid cydnabod amrywiaeth o bartneriaid ychwanegol yn y matrics, ond y gallai dyfu'n rhy fawr h.y. gelid cynnwys Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Canolfan y Dechnoleg Amgen<br>iii. **Cynulleidfa 3.1 Cyflwyniad** – teimlwyd y dylai preswylwyr gael eu cydnabod fel grŵp | |

| | | |
|---|---|---|
| 3. | **GRŴP MOROL (SEILWAITH TWRISTIAETH RANBARTHOL)**<br><br>Daeth cynrychiolwyr o'r grŵp morol i'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a gynhaliwyd i ail-fodelu ardaloedd harbwr a'u troi'n farinas bywiog. Bu'r prosiectau hyd yn hyn yn llwyddiannus iawn ac mae cynlluniau i gyflwyno prosiectau tebyg mewn ardaloedd eraill lle y bo hynny'n ymarferol. Barn y Grwp Morol yw bod arfordir Cymru yn unigryw o ran ei ddaearyddiaeth a'i harddwch naturiol. Mae cynlluniau ar gyfer Aberystwyth yn eu babandod o'u cymharu ag ardaloedd eraill, fodd bynnag, mae prosiect Aberystwyth yn symud ar gyflymder sefydlog. Mae'r cynlluniau ar gyfer Aberaeron yn y camau cynnar iawn. Mae ffocws lleol cryf iawn i holl brosiectau'r Grŵp Morol (cyflogaeth leol, hyfforddiant, defnyddio cynnyrch lleol ac ati). Mae cysylltu ag awdurdodau lleol a phartneriaid mewn ardaloedd lle mae ystyriaethau datblygu yn bwysig iawn. Dywedodd Rhodri Griffiths – Llywodraeth Cymru fod prosiectau'r Grŵp Morol yn cyd-fynd yn dda ag agenda 'lleol/lle' y rhanbarth. | |
| 4. | **FFRAMWEITHIAU ECONOMAIDD RHANBARTHOL**<br><br>Byddai datblygu fframwaith economaidd rhanbarthol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni yn erbyn 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015' a pholisi 'Ffyniant i bawb' Llywodraeth Cymru. Ym mis Mai, sefydlodd Llywodraeth Cymru dîm i gefnogi'r weithgaredd. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio ar drefniant tri rhanbarth ac yn cysylltu ag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y meysydd hynny er mwyn llunio gweledigaeth ar y cyd. Bydd yn bwysig i gael cefnogaeth ranbarthol ym mhob ardal. Nodwyd bod tua 130 o gynlluniau/strategaethau byw ar hyn o bryd sy'n ymwneud â materion economaidd. Y bwriad yw i awdurdodau lleol a phartneriaid gyd-gynllunio'r fframwaith leol. Bydd angen i'r cynllun lleol gydnabod cynlluniau Cymru a'r DG. Byddai'r rhaglen Bargen Twf yn rhan o'r fframwaith economaidd ehangach. Roedd Fframwaith Economaidd Canolbarth Cymru yn ei gyfnod cynnar ac yn y cyfnod SWOT. Bydd y cam nesaf yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori'n lleol. | |
| 5. | **GWELEDIGAETH YNNI RANBARTHOL**<br><br>Byddai'n bwysig o ran trefniadau llywodraethu da a pherchnogaeth leol ar gynllun ynni rhanbarthol. Disgwylir y byddai'r economi carbon isel yn tyfu'n gyflym ac y byddai rhanbarth Canolbarth Cymru yn amlwg iawn o fewn cynlluniau. Yn y degawd diwethaf roedd y defnydd o ynni ledled Cymru wedi lleihau. Disgwylir i'r tueddiad hwn barhau yn sgil newid ymddygiad. Bydd yn bwysig i'r bartneriaeth gymryd rhan a chael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun a'i gynnydd. Anogwyd mynychwyr i fynychu gweithdy a fyddai'n cael ei chynnal ym mis Tachwedd. Yng ngogledd Cymru, lle mae cynllun ynni wedi'i gyflwyno, mae trefniadau monitro is-grŵp wedi'u sefydlu. | |
| 6. | **NATIONAL DEVELOPMENT FRAMEWORK – LLYWODRAETH CYMRU CONSULTATION**<br><br>Rhoddodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru y wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Yn ystod y drafodaeth, rhoddwyd sylw penodol i:<br><br>a. **Deddf Cynllunio 2015 (Fframwaith Datblygu Cenedlaethol)** – roedd deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi meysydd i'w datblygu ar lefel uchel iawn/strategol (lefel oedd ar goll). Byddai cyfnod y Fframwaith rhwng 2020-2040 a byddai adolygiad pum mlynedd. Byddai'r Fframwaith yn cymryd lle Cynllun Gofodol Cymru<br>b. **Cynlluniau Datblygu Lleol** – Bydd angen i'r CDLl ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Efallai y byddai'n bosibl datblygu CDLl Canolbarth Cymru | |

<table>
<tr><td></td><td>c. Cyflwyno Polisïau – bydd 33 polisi newydd yn cael eu cyflwyno i helpu i gyflawni'r Fframwaith<br>d. Ôl-troed Rhanbarthol – bydd y fframwaith yn dilyn trefniant tri rhanbarth. Awgrymodd y rhai oedd yn bresennol y dylid adolygu'r sefyllfa ac y dylai rhanbarth y Canolbarth fod yn rhanbarth yn ei rinwedd ei hun<br>e. Ffocws Lleol – barn y rhai oedd yn bresennol oedd nad oedd y Fframwaith yn cydnabod anghenion lleol ar draws rhanbarth canolbarth Cymru. Nid yw anghenion lleol o ran seilwaith, tai cymdeithasol, bylchau sgiliau, cefnogaeth fusnes, cyswllt ac ati ddim yn cael sylw yn y ddogfen hyd yma<br>f. Dogfen Derfynol – disgwyliwyd y byddai'r ddogfen derfynol yn barod yn yr Hydref gyda'r bwriad o fabwysiadu o 2020<br>g. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – byddai pob ardal Awdurdod Lleol a’r Parciau Cenedlaethol yn ymateb yn unigol. Cytunwyd hefyd y byddai’n werth ymateb fel partneriaeth i adlewyrchu Canolbarth Cymru fel rhanbarth. Cytunwyd y dylid anfon unrhyw sylwadau rhanbarthol gael eu hanfon at Claire Miles/Carwyn Jones-Evans o fewn wythnos</td><td>All</td></tr>
<tr><td>7.</td><td>RHAGLEN BUDDSODDI ADFYWIO WEDI'I THARGEDU<br><br>Mae £6.5 miliwn ar gael dros y tair blynedd (2018-2021) i gefnogi gweithgareddau. Bydd yn bwysig cael ceisiadau er mwyn cael y swm mwyaf posibl o arian. Gellir ymestyn y rhaglen dros bum mlynedd h.y. o 2018 – 2023. Roedd nifer o brosiectau wedi sicrhau cyllid.</td><td></td></tr>
<tr><td>8.</td><td>GRONFA STRWYTHUROL EWROPEAIDD – ADRODDIAD YMGYSYLLTU RHANBARTHOL<br><br>Arwyn Davies – bydd Ceredigion yn cylchredeg adroddiad i roi diweddariad i'r Aelodau ac ymddiheurodd nad oedd y papur wedi'i ddarparu cyn cyfarfod heddiw. Mae'r materion sydd angen eu hystyried gyntaf yn ymwneud â BREXIT ac ystyried trefniadau ar gyfer gweinyddu cyllid i gefnogi prosiectau pan fydd y DG yn gadael yr UE.</td><td>Arwyn Davies</td></tr>
<tr><td>9.</td><td>GWEITHGOR CYSYLLTEDD A SEILWAITH – DIWEDDARIAD CHWARTER 3<br>Cadarnhaodd Ann Elias fod contractwyr ar y safle yng ngorsaf reilffordd Bow Street i ymgymryd â’r gwaith (enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth). Wrth drafod, nododd y Cadeirydd nad yw rhwydwaith rheilffyrdd y Canolbarth yn cael sylw yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Teimlwyd y dylai'r Fframwaith gydnabod y coridorau strategol gan eu bod yn bwysig i ganolbarth Cymru.<br><br>Croesawodd y Bartneriaeth ddiweddariad Chwarter 3 y Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith a ddosbarthwyd gyda phapurau'r cyfarfod.</td><td></td></tr>
<tr><td>10.</td><td>YMGYNGHORIADAU LLYWODRAETH CYMRU<br><br>a. Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod<br><br>Roedd y dyddiad cau ar gyfer ymateb i Gynllun Gweithredu Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru wedi mynd heibio. Fodd bynnag, byddai Llywodraeth Cymru'n derbyn adborth gan y bartneriaeth. Cytunwyd bod y sectorau bwyd a diod yn bwysig iawn i'r economi leol ac y gallent ddod yn fwy pwysig yn y dyfodol. Byddai prosiectau lleol o fewn y thema berthnasol i gefnogi gweithgarwch yn y maes hwn. Tra nodwyd y byddai'r cynllun yn canolbwyntio ar gynhyrchiant, teimlwyd y dylai hefyd gydnabod tyfwyr/darparwyr h.y. ffermwyr. Dylid rhoi barn y bartneriaeth.<br><br>b. Ffermio Cynaliadwy a'n Tir</td><td>Claire Miles</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | Teimlwyd y dylai rhanbarth Canolbarth Cymru gael ei gynrychioli'n gryf yn ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir Llywodraeth Cymru. Dyddiad cau'r ymgynghoriad oedd 30 Hydref. Byddai Carwyn Evans-Jones/Claire Miles yn ymateb ar ran y bartneriaeth | Claire Miles |
| **11.** | **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**<br><br>Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 17 Ionawr 2020 yn Llandrindod. Awgrymodd y Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys, y gallai fod yn briodol i gael diweddariad mewn cyfarfod yn y dyfodol gan y rhai sy'n rhedeg Canolfan y Dechnoleg Amgen ger Machynlleth. | Claire Miles |

**CYNGHORYDD ELLEN AP GWYNN - ARWEINYDD**
**CYNGOR SIR CEREDIGION**
**YN Y GADAIR**